

2016 Rhif (Cy.)

2016 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Pentre-du, Betws-y-coed,
Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn
Cyflymder 20 mya Rhan-amser)
2016

The A5 Trunk Road (Pentre Du,
Betws-y-Coed, Conwy County
Borough) (Part-Time 20 mph
Speed Limit) Order 2016

Gwnaed 22 Tachwedd 2016

Made 22 November 2016

Yn dod i rym 24 Tachwedd 2016

Coming into force 24 November 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain – Caerdybi (yr A5) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the London – Holyhead Trunk Road (A5) (“the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (“the 1984 Act”) and after consultation with the Chief Officer of the North Wales Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Tachwedd 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2016.

1. This Order comes into force on 24 November 2016 and its title is The A5 Trunk Road (Pentre Du, Betws-y-Coed, Conwy County Borough) (Part-Time 20 mph Speed Limit) Order 2016.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the 1984 Act(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of the member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high

diogelwch gwladol; neu

speeds; or

- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds.

ystyr “lluoeedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoeedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

“special forces” (“*lluoeedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 154 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd â’r ffordd myl ddiddosbarth o’r enw Ffordd Gethin, ym Mwrdeistref Sirol Conwy hyd at bwynt 43 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd â’r ffordd myl ddiddosbarth o’r enw Rhes Dolydd, hefyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Restriction

3. No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour in the length of the trunk road that extends from a point 154 metres south east of the centrepoint of the junction with the unclassified side road known as Ffordd Gethin, in the Conwy County Borough to a point 43 metres north west of the centrepoint of the junction with the unclassified side road known as Rhes Dolydd, also in the Conwy County Borough.

4. Nid yw’r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Atal Dros Dro

5. Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016(3) wedi ei atal dros dro tra bydd y terfyn cyflymder o 20 mya yn weithredol.

Suspension

5. The A5 Trunk Road (Pentre Du, Betws-y-Coed, Conwy County Borough) (40 mph Speed Limit) Order 2016(3) will be suspended whilst the 20 mph speed limit is in operation.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dyddiedig

22 Tachwedd 2016

Dated

22 November 2016

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith Llywodraeth Cymru

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management Welsh Government

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).
- (3) O.S. 2016/385 (Cy. 119).

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).
- (3) S.I. 2016/385 (W.119).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5
(PENTRE-DU, BETWS-Y-COED,
BWRDEISTREF SIROL CONWY) (TERFYN
CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER) 2016**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 24 Tachwedd 2016.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya ar y darn o gefnffordd yr A5 ym Mhentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 154 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd â'r ffordd ymyl ddiddosbarth o'r enw Ffordd Gethin hyd at bwynt 43 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd â'r ffordd ymyl ddiddosbarth o'r enw Rhes Dolydd. Bydd y terfyn cyflymder o 20 mya yn cael ei roi ar waith ar seiliau diogelwch i gerddwyr a rheoli traffig a bydd yn gymwys am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn y tymor ysgol ac ni ddisgwylir iddo fod yn weithredol ar benwythnosau. Bydd y terfyn cyflymder presennol o 40 mya yn parhau mewn grym ar bob adeg arall.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 22 Tachwedd 2016 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Llanrwst, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy LL32 8DU neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1251555.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2016).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (PENTRE DU, BETWS-
Y-COED, CONWY COUNTY BOROUGH)
(PART-TIME 20 MPH SPEED LIMIT) ORDER
2016**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 84(1), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 24 November 2016.

The effect of the Order is to impose a part-time 20 mph speed limit on the length of the A5 trunk road at Pentre Du, Betws-y-Coed, Conwy County Borough that extends from a point 154m south east of the centre-point of the junction with unclassified side road known as Ffordd Gethin to a point 43m north west of the centre-point junction with the unclassified side road known as Rhes Dolydd. The 20 mph speed limit restriction will be implemented on pedestrian safety and traffic management grounds and will apply for limited periods of the day during school term time and is not expected to operate at weekends. At all other times, the existing 40 mph speed limit will remain in force.

During a period of 6 weeks from 22 November 2016 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Llanrwst Library, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF and Conwy Borough County Council, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1251555.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2016).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

